

Cynllun Gweithredu ar gyfer Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam (Ac Eithrio'r Gwasanaeth Bwyd Anifeiliaid*)

Dyddiad Archwilio: 6 – 10 Chwefror 2017

Dyddiad yr Ymweliad Dilynol: 4-5 Medi 2018

(*) Ni chafodd y gwasanaeth bwyd anifeiliaid ei gynnwys yn yr archwiliad gwreiddiol. Cyflwynwyd model cyflenwi bwyd anifeiliaid rhanbarthol yng Nghymru o fis Ebrill 2015.

Allwedd Statws

	Wedi'i gwblhau
	Cynnydd da
	Cynnydd cyfyngedig
	Heb gymryd unrhyw gamau gweithredu

Mynd i'r afael â (argymhelliad yn cynnwys paragraff)	Statws	Gwelliannau arfaethedig	Cynnydd hyd yma	Heb ei gyflawni
3.24 (i) Sicrhau bod Cynlluniau Gwasanaeth y dyfodol ar gyfer hylendid a safonau bwyd yn cael eu datblygu yn unol â'r Canllawiau Cynllunio Gwasanaeth yn y Cytundeb Fframwaith. Yn benodol, dylid rhoi amcangyfrif o'r adnoddau sydd eu hangen i ddarparu'r gwasanaethau yn erbyn y rheiny sydd ar gael. [Y Safon – 3.1]		Mae'r Cynllun Gwasanaeth Bwyd bellach wedi'i ysgrifennu yn unol â'r Canllawiau Cynllunio Gwasanaeth. Mae amcangyfrif o nifer yr adnoddau sydd eu hangen wedi'i ymgorffori yn y Cynllun Gwasanaeth Bwyd.	Mae Cynllun Gwasanaeth 2018/19 wedi'i ddrافتio i gynnwys amcangyfrif o'r adnoddau sydd eu hangen i ddarparu gwasanaethau yn erbyn y rhai sydd ar gael.	Wedi'i gwblhau.

Mynd i'r afael â (argymhelliad yn cynnwys paragraff)	Statws	Gwelliannau arfaethedig	Cynnydd hyd yma	Heb ei gyflawni
3.24 (ii) Sicrhau bod yr Adolygiad Perfformiad Blynyddol yn cynnwys yr holl wybodaeth am berfformiad y flwyddyn flaenorol yn erbyn y Cynllun Gwasanaeth Bwyd ac unrhyw dargedau, safonau a chanlyniadau perfformiad a nodwyd. [Y Safon – 3.1]		Mae'r Adolygiad Perfformiad Blynyddol wedi'i gynnwys yn y cynllun ac adolygiad o'r targedau wedi'i gynnal.	Sicrhau bod Cynllun Gwasanaeth 2018/19 yn cynnwys yr holl wybodaeth am berfformiad y flwyddyn flaenorol yn erbyn y Cynllun Gwasanaeth ac unrhyw dargedau, safonau a chanlyniadau perfformiad a nodwyd.	Wedi'i gwblhau.
3.24 (iii) Sicrhau ei fod yn mynd i'r afael ag unrhyw amrywiadau o ran bodloni'r Cynllun Gwasanaeth Bwyd mewn cynllun dilynol. [Y Safon – 3.3]		Mae'r awdurdod wedi mynd i'r afael â'r holl amrywiadau o'r cynllun blaenorol yn y cynllun. Mae hyn wedi cynnwys rhoi esboniad ar gyfer pob un a nodi meysydd i'w gwella.	Mae Cynllun Gwasanaeth 2018/19 wedi'i ddrافتio i fynd i'r afael â'r holl amrywiadau o ran cyflawni Cynllun Gwasanaeth y blynyddoedd blaenorol.	Wedi'i gwblhau.
4.6 (i) Sicrhau y caiff y polisiau a'r gweithdrefnau eu diweddarau â gwybodaeth a chyfeiriadau cyfredol, a'u bod yn cael eu hadolygu'n rheolaidd yn unol â gweithdrefnau rheoli dogfennau. [Y Safonau – 4.1 a 4.2]		Bydd yr holl weithdrefnau nad ydynt wedi'u diweddarau eto yn cael eu diweddarau a'u hadolygu fel rhan o raglen dreigl.	Mae'r gweithdrefnau wedi'u hadolygu a'u diweddarau a chyflwynwyd system rheoli dogfennau i sicrhau bod dogfennau'n cael eu hadolygu'n rheolaidd.	Wedi'i gwblhau.

Mynd i'r afael â (argymhelliad yn cynnwys paragraff)	Statws	Gwelliannau arfaethedig	Cynnydd hyd yma	Heb ei gyflawni
<p>5.9 (i) Sicrhau y caiff nifer priodol o swyddogion awdurdodedig eu penodi i gyflawni rheolaethau swyddogol hylendid bwyd a safonau bwyd, yn unol â'r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd. [Y Safon – 5.3]</p>		<p>Mae'r asesiad adnoddau yn y Cynllun Gwasanaeth wedi'i ddwyn at sylw'r Aelod Arweiniol penodedig ac yn disgwyl iddo ei gymeradwyo.</p> <p>Mae swyddogion hefyd yn cael eu hail-hyfforddi i gynnal arolygiadau hylendid bwyd a safonau bwyd ar y cyd.</p> <p>Gweithdrefnau diwygiedig</p>	<p>Yn dilyn ailstrwythuro, cyfunwyd y tîm ac mae hyn wedi darparu gallu ychwanegol o ran swyddogion awdurdodedig.</p> <p>Mae'r Awdurdod wedi buddsoddi mewn hyfforddiant er mwyn galluogi swyddogion awdurdodedig i gynnal arolygiadau ar gyfer hylendid bwyd a safonau bwyd ar y cyd sydd wedi arwain at arbed adnoddau.</p> <p>Mae'r asesiad adnoddau yn y Cynllun Gwasanaeth yn dangos cynnydd yn y swyddogion proffesiynol llawn amser o'i gymharu â chyfnod yr archwiliad llawn.</p>	<p>Mae'r asesiad adnoddau yn y Cynllun Gwasanaeth yn nodi gwahaniaeth rhwng nifer y swyddogion proffesiynol llawn amser o'i gymharu ag amcangyfrif nifer y swyddogion llawn amser sy'n ofynnol.</p> <p>Mae diffyg mewn ymyriadau safonau hylendid a safonau bwyd wedi'i gwblhau yn unol â'r amllder a nodir yn y Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd.</p> <p>Sicrhau bod nifer priodol o swyddogion awdurdodedig yn cael eu penodi i ddarparu rheolaethau swyddogol hylendid bwyd a safonau bwyd.</p>

Mynd i'r afael â (argymhelliad yn cynnwys paragraff)	Statws	Gwelliannau arfaethedig	Cynnydd hyd yma	Heb ei gyflawni
7.29 (i) Sicrhau bod ymyriadau/arolygiadau hylendid bwyd yn cael eu cynnal ar yr amllder lleiaf a bennir gan y Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd. [Y Safon – 7.1]		Drwy gynllunio gwasanaethau, gallwn lunio'r rhaglen o ymyriadau yn unol â'r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd a'r adnoddau sydd eu hangen i'w chyflawni. Mae'r asesiad o adnoddau yn y Cynllun Gwasanaeth wedi'i ddwyn at sylw'r Aelod Arweiniol penodedig ac yn disgwyl iddo ei gymeradwyo. Mae gweithdrefnau diwygiedig, arferion gwaith newydd a threfniadau rheoli newydd yn cael eu gweithredu.	Mae cyfanswm yr ymyriadau hylendid bwyd hwyr wedi gostwng. Mae rhaglen ymyrryd yr awdurdod yn arddangos dull sy'n seiliedig ar risg.	Sicrhau bod pob sefydliad gan gynnwys sefydliadau risg isel yn cael ymyriad priodol ar yr amllder cywir.

Mynd i'r afael â (argymhelliad yn cynnwys paragraff)	Statws	Gwelliannau arfaethedig	Cynnydd hyd yma	Heb ei gyflawni
<p>7.29 (ii) Cynnal ymyriadau/arolygiadau hylendid bwyd yn unol â'r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd a chanllawiau a gyhoeddir yn ganolog a gweithdrefnau. Yn arbennig, sicrhau, lle bo'n berthnasol, fod sgorio risg ymyriadau ac ailymweliadau yn cael eu cynnal yn gyson yn unol â'r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd, canllawiau a gyhoeddir yn ganolog, a gweithdrefnau lleol. [Y Safon – 7.2]</p>		<p>Mae swyddogion wedi'u cynghori i sicrhau bod sgoriau risg wedi'u cymhwyso'n gywir ac y caiff ailymweliadau eu cynnal a'u cofnodi'n briodol.</p>	<p>Ymgwymerwyd â'r gwaith o sgorio risg ymyrryd ac ailymweliadau yn unol â Chod Ymarfer Cyfraith Bwyd ym mhob achos.</p> <p>Roedd y broses gymeradwyo yn gywir ym mhob achos perthnasol.</p>	<p>Wedi'i gwblhau.</p>

Mynd i'r afael â (argymhelliad yn cynnwys paragraff)	Statws	Gwelliannau arfaethedig	Cynnydd hyd yma	Heb ei gyflawni
7.29 (iii) Cynnal asesiad llawn o gydymffurfiaeth sefydliadau yn ei ardal â'r safonau a ragnodir yn gyfreithiol. [Y Safon – 7.3]		<p>Adroddiadau arolygu wedi'u diwygio a'u diweddarau i adlewyrchu sylwadau archwilwyr yn ystod yr wythnos.</p> <p>Swyddogion wedi'u hatgoffa i sicrhau bod asesiadau o gydymffurfiaeth yn gyson drylwyr ac yn cael eu cofnodi'n briodol.</p>	<p>Nodwyd gwelliannau o ran cysondeb asesiadau Dadansoddi Peryglon a Phwynt Rheoli Critigol (HACCP) mewn sefydliadau cymeradwy ac asesiadau cymhwyso marciau adnabod.</p> <p>Gwelliannau mewn perthynas ag asesu olrhain, asesiadau croeshalodi, asesu hyfforddiant hylendid bwyd a thrafodaethau â sefydliadau sy'n trin bwyd.</p>	<p>Sicrhau asesu marciau iechyd/adnabod yn gyson ar gyfer bwyd sy'n dod i mewn. Sicrhau bod asesiadau llawn yn cael eu cynnal yn gyson ym mhob Pwynt Rheoli Critigol ac ar gyfer bwyd wedi'i fewnforio (safleoedd heb eu cymeradwyo).</p>

Mynd i'r afael â (argymhelliad yn cynnwys paragraff)	Statws	Gwelliannau arfaethedig	Cynnydd hyd yma	Heb ei gyflawni
<p>7.29 (iv) Sicrhau y caiff y gweithdrefnau cofnodedig ar gyfer ymyriadau eu hadolygu i gynnwys cyfeiriad at y trefniadau lleol ar gyfer fflagio, amserlenni ar gyfer ailymweliadau a threfniadau Awdurdod Cartref/Gwreiddiol. Yn ogystal, datblygu gweithdrefn ymyrryd yn unol â'r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd a chanllawiau wedi'u cyhoeddi'n ganolog ar gyfer cymeradwyo sefydliadau ac ar gyfer ei strategaeth orfodi amgen. [Y Safon – 7.4]</p>		<p>Cyflwyno gweithdrefn ymyrryd ar y cyd newydd.</p> <p>Bydd y weithdrefn yn cynnwys yr angen i fflagio, ailymweliadau a rhoi gwybod i'r Awdurdod Cartref/Gwreiddiol/Prif Awdurdod am ganlyniadau ymyriadau. Datblygu gweithdrefn Ymyriadau Cymeradwyo newydd.</p> <p>Datblygu gweithdrefn Strategaeth Orfodi Amgen newydd ar gyfer arolygiadau hylendid bwyd a safonau bwyd.</p>	<p>Mae'r gweithdrefnau bellach yn ymdrin â threfniadau lleol ar gyfer fflagio, strategaeth orfodi amgen, amserlenni ar gyfer ailymweld a threfniadau cyswllt awdurdodau cartref/gwreiddiol.</p> <p>Datblygwyd gweithdrefn mewn perthynas ag ymyriadau mewn sefydliadau cymeradwy.</p>	<p>Wedi'i gwblhau.</p>

Mynd i'r afael â (argymhelliad yn cynnwys paragraff)	Statws	Gwelliannau arfaethedig	Cynnydd hyd yma	Heb ei gyflawni
<p>7.29 (v) Sicrhau bod arsylwadau a wnaed a/neu'r data a gasglwyd yn ystod arolygiad/ymyriad hylendid bwyd yn cael eu cofnodi'n amserol fel na chaiff gwybodaeth berthnasol ei cholli. [Y Safon – 7.5]</p>		<p>Adroddiadau arolygu wedi'u diwygio a'u diweddarau i adlewyrchu sylwadau archwilwyr yn ystod yr wythnos. Mae adroddiadau arolygu bellach yn cynnwys cofnodi rhifau adnabod (ID) a mesurau rheoli croeshalogi</p> <p>Swyddogion wedi'u hatgoffa i sicrhau eu bod yn cofnodi arsylwadau'n briodol.</p>	<p>Nodwyd gwelliannau mewn perthynas â chofnodi asesiadau olrhain, asesiadau croeshalogi, asesiadau hyfforddiant hylendid bwyd a thrafodaethau â sefydliadau sy'n trin bwyd.</p> <p>Nodwyd gwelliannau mewn arsylwadau cofnodedig mewn perthynas â chyflenwyr, cwsmeriaid ac asesiadau cydymffurfiaeth mewn sefydliadau cymeradwy.</p>	<p>Sicrhau bod yr arsylwadau'n cael eu cofnodi'n gyson mewn perthynas ag asesiadau mewn Pwyntiau Rheoli Critigol, gwiriadau ar farciau iechyd/ adnabod sy'n dod i mewn a bwyd wedi'i fewnforio (safleoedd heb eu cymeradwyo)</p>

Mynd i'r afael â (argymhelliad yn cynnwys paragraff)	Statws	Gwelliannau arfaethedig	Cynnydd hyd yma	Heb ei gyflawni
7.48 (i) Sicrhau y caiff ymyriadau/arolygiadau safonau bwyd eu cynnal ar yr amllder lleiaf a bennir gan y Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd. [Y Safon – 7.1]		<p>Drwy gynllunio gwasanaethau, gallwn lunio'r rhaglen o ymyriadau yn unol â'r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd a'r adnoddau sydd eu hangen i'w chyflawni. Mae'r asesiad o adnoddau yn y Cynllun Gwasanaeth wedi'i ddwyn at sylw'r Aelod Arweiniol penodedig ac yn disgwyl iddo ei gymeradwyo.</p> <p>Mae gweithdrefnau diwygiedig, arferion gwaith newydd a threfniadau rheoli newydd yn cael eu gweithredu.</p>	<p>Mae cyfanswm yr ymyriadau safonau bwyd hwyr wedi gostwng.</p> <p>Mae'r awdurdod wedi cynnwys busnesau a restrwyd eisoes fel rhai y tu allan i gwmpas y rhaglen yn ei raglen arolygiadau safonau bwyd.</p>	Sicrhau bod pob sefydliad, gan gynnwys sefydliadau risg canolig a sefydliadau heb sgôr (gan gynnwys y rhai a oedd o fewn cwmpas y rhaglen) yn cael ymyriad priodol ar yr amllder cywir.
7.48(ii) Cynnal ymyriadau/arolygiadau safonau bwyd yn unol â'r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd a chanllawiau a gyhoeddir yn ganolog. [Y Safon – 7.2]		Mae swyddogion wedi'u cynghori i sicrhau bod sgoriau risg wedi'u cymhwyso'n gywir ac y caiff arolygiadau eu cynnal heb rybudd yn unol â'r Cod.	Arolygiadau yn gyson ddirybudd a rhai gwelliannau o ran cysondeb sgorio risg yn unol â chanfyddiadau.	Sicrhau bod pob sgôr risg yn gyson â chanfyddiadau.

Mynd i'r afael â (argymhelliad yn cynnwys paragraff)	Statws	Gwelliannau arfaethedig	Cynnydd hyd yma	Heb ei gyflawni
7.48 (iii) Asesu cydymffurfiaeth sefydliadau yn ei ardal yn unol â'r safonau a ragnodir yn gyfreithiol [Y Safon – 7.3]		Mae swyddogion sy'n cynnal arolygiadau safonau bwyd wedi'u cynghori bod yn rhaid iddynt gasglu a chofnodi gwybodaeth ddigonol er mwyn gallu asesu cydymffurfiaeth y safle yn llawn.	Nodwyd gwelliannau o ran asesiadau cydymffurfiaeth.	Wedi'i gwblhau.
7.48 (iv) Datblygu gweithdrefn ymyriadau yn unol â'r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd a chanllawiau a gyhoeddir yn ganolog. [Y Safon – 7.4].		Cyflwyno gweithdrefn ymyrryd ar y cyd newydd.	Datblygwyd gweithdrefn a'i chyfuno â'r weithdrefn hylendid bwyd.	Wedi'i gwblhau.
7.48 (v) Sicrhau bod arsylwadau a wnaed a/neu'r data a gasglwyd yn ystod arolygiad/ymyriad safonau bwyd yn cael eu cofnodi'n amserol fel na chaiff gwybodaeth berthnasol ei cholli. [Y Safon – 7.5]		Ffurflen arolygu gyfun newydd wedi'i datblygu. Gofynion ac argymhellion ychwanegol a nodwyd fel rhan o'r archwiliad wedi'u cynnwys. Mae'r ffurflen bellach wedi'i dylunio i'w defnyddio ag arolygiadau hylendid bwyd a safonau bwyd cyfunol.	Nodwyd gwelliannau o ran arsylwadau swyddogion; yn benodol, mewn perthynas â maint, graddfa a chwmpas gweithgareddau busnes ac asesiadau cydymffurfiaeth.	Wedi'i gwblhau.

Mynd i'r afael â (argymhelliad yn cynnwys paragraff)	Statws	Gwelliannau arfaethedig	Cynnydd hyd yma	Heb ei gyflawni
<p>8.8 (i) Diwygio ei weithdrefn hylendid bwyd i gynnwys trefniadau lleol ar gyfer delio â chwynion o ran cyflwr safleoedd ac amserlenni ar gyfer ymateb i gwynion. Yn ogystal, dylai'r awdurdod greu a gweithredu gweithdrefn safonau bwyd yn unol â'r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd a chanllawiau a gyhoeddir yn ganolog. [Y Safon – 8.1]</p>		<p>Cyflwyno gweithdrefn gwynion ar y cyd ar gyfer hylendid bwyd a safonau bwyd.</p>	<p>Mae'r weithdrefn hylendid bwyd wedi'i diwygio ac mae bellach yn cynnwys gweithdrefn ar gyfer safonau bwyd.</p>	<p>Wedi'i gwblhau.</p>
<p>8.8 (ii) Sicrhau ei fod yn ymchwilio i gwynion neu geisiadau gwasanaeth safonau bwyd yn unol â'r Codau Ymarfer Cyfraith Bwyd perthnasol, canllawiau a gyhoeddir yn ganolog, a pholisïau a gweithdrefnau'r awdurdod. [Y Safon – 8.2]</p>		<p>Swyddogion wedi'u cynghori bod rhaid rhoi gwybod i ddefnyddwyr gwasanaethau am ganlyniadau pob ymchwiliad.</p>	<p>Mae'r rheiny sy'n cwyno bellach yn cael gwybod am ganlyniadau ymchwiliadau'n gyson.</p>	<p>Wedi'i gwblhau</p>

Mynd i'r afael â (argymhelliad yn cynnwys paragraff)	Statws	Gwelliannau arfaethedig	Cynnydd hyd yma	Heb ei gyflawni
11.3 (i) Adolygu a diweddarau ei weithdrefn ar gyfer rheoli'r gronfa ddata. [Y Safon – 11.2]		Mae'r weithdrefn ar gyfer rheoli'r gronfa ddata wedi'i diweddarau ac mae'n cynnwys newidiadau i'r gronfa ddata sydd ar waith a gweithdrefnau gweithio newydd.	Mae'r weithdrefn ar gyfer rheoli'r gronfa ddata wedi'i diwygio.	Wedi'i gwblhau.
12.11 (i) Adolygu, diwygio a gweithredu ei bolisi samplu ar gyfer archwilio a dadansoddi bwyd yn ficrobiolegol ac yn gemegol yn unol â'r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd a chanllawiau a gyhoeddir yn ganolog. [Y Safon – 12.4]		Mae'r polisi samplu wedi'i adolygu a'i ddiweddarau gan gymryd i ystyriaeth y newidiadau angenrheidiol. Mae'r awdurdod wedi datblygu gweithdrefn samplu cyfunol ar gyfer safonau bwyd a hylendid bwyd.	Mae'r polisi/gweithdrefn samplu wedi'i diwygio.	Wedi'i gwblhau.

Mynd i'r afael â (argymhelliad yn cynnwys paragraff)	Statws	Gwelliannau arfaethedig	Cynnydd hyd yma	Heb ei gyflawni
<p>12.11 (ii) Adolygu, diwygio a gweithredu ei weithdrefn gofnodedig ar gyfer archwilio a dadansoddi bwyd yn ficrobiolegol ac yn gemegol yn unol â'r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd a chanllawiau a gyhoeddir yn ganolog. [Y Safon – 12.5]</p>		<p>Mae'r polisi samplu wedi'i adolygu a'i ddiweddarau gan gymryd i ystyriaeth y newidiadau angenrheidiol.</p> <p>Mae'r awdurdod wedi datblygu gweithdrefn samplu cyfunol ar gyfer safonau bwyd a hylendid bwyd.</p>	<p>Mae'r weithdrefn samplu wedi'i diwygio a'i chyfuno â'r polisi samplu.</p>	<p>Wedi'i gwblhau.</p>
<p>12.11 (iii) Cynnal gwaith samplu hylendid bwyd a safonau bwyd yn unol â'i bolisi, ei weithdrefnau a'i raglen samplu gofnodedig. [Y Safon – 12.6]</p>		<p>Gwaith samplu hylendid bwyd a safonau bwyd i'w gynnal yn unol â'r polisi samplu, y gweithdrefnau ac amserlen samplu 2017/18.</p>	<p>Nodwyd gwelliannau o ran camau dilynol samplau hylendid bwyd. Ni chafodd camau dilynol safonau bwyd eu profi oherwydd nifer cyfyngedig y canlyniadau samplu anffafriol.</p>	<p>Sicrhau bod camau priodol yn cael eu cymryd mewn perthynas â chanlyniadau samplu safonau bwyd anffafriol; gan gynnwys rhoi gwybod am y canlyniadau i'r holl bartïon perthnasol.</p>

Mynd i'r afael â (argymhelliad yn cynnwys paragraff)	Statws	Gwelliannau arfaethedig	Cynnydd hyd yma	Heb ei gyflawni
<p>13.9 (i) Adolygu'r weithdrefn ar gyfer ymchwilio i achosion achlysurol o glefydau heintus sy'n gysylltiedig â bwyd er mwyn sicrhau bod yr awdurdod yn ymchwilio i bob hysbysiad yn unol â chanllawiau a gyhoeddir yn ganolog, gan gynnwys Campylobacter. Sicrhau bod y weithdrefn wedi'i gweithredu'n llawn i gynnwys ymchwilio a sicrhau camau dilynol pob hysbysiad. [Y Safon – 13.2]</p>		<p>Angen diweddarau'r weithdrefn clefydau heintus. Angen i'r weithdrefn gymryd i ystyriaeth y weithdrefn newydd ar gyfer Hysbysu am Glefydau Heintus. Cronfa ddata clefydau heintus yn mynd yn fyw ganol mis Mai felly nid oes modd cwblhau'r gwaith hwn cyn hynny.</p> <p>Gweithdrefn wedi'i rhoi ar waith i sicrhau bod pob achos o Campylobacter yn cael holiadur dilynol os nad oes ymateb i'r holiadur cychwynnol. Bydd hyn yn cael ei ymgorffori yn y weithdrefn uchod.</p>	<p>Mae'r weithdrefn clefyd trosglwyddadwy wedi'i diwygio ac fe'i gweithredwyd ymhob achos.</p>	<p>Wedi'i gwblhau.</p>

Mynd i'r afael â (argymhelliad yn cynnwys paragraff)	Statws	Gwelliannau arfaethedig	Cynnydd hyd yma	Heb ei gyflawni
<p>15.19 (i) Adolygu a diwygio ei bolisiau gorfodi i gynnwys manylion ei drefniadau ar gyfer sicrhau cydymffurfiaeth â gofynion hylendid bwyd a safonau bwyd mewn sefydliadau y mae'n weithredwr busnes bwyd arnynt. Sicrhau bod y polisi gorfodi diogelwch bwyd yn cael ei gymeradwyo gan y fforwm aelodau perthnasol. [Y Safon – 15.1]</p>		<p>Mae'r Polisi Gorfodi Bwyd wedi'i ddiweddarau i gynnwys pa gamau y mae gofyn eu cymryd pan fo'r awdurdod lleol yn weithredwr busnes bwyd ac wedi'i gymeradwyo gan Reolwr Gwasanaeth Diogelu'r Cyhoedd.</p>	<p>Mae'r polisi gorfodi wedi'i ddiweddarau i gynnwys trefniadau ar gyfer safleoedd sy'n cael eu gweithredu gan awdurdodau lleol.</p>	<p>Sicrhau bod y polisi gorfodi yn cynnwys meini prawf ar gyfer pob un o'r dewisiadau gorfodi bwyd. Gellir gwneud hyn trwy ychwanegu meini prawf yn y weithdrefn gorfodi bwyd fel atodiad i'r polisi diogelu'r cyhoedd.</p>

Mynd i'r afael â (argymhelliad yn cynnwys paragraff)	Statws	Gwelliannau arfaethedig	Cynnydd hyd yma	Heb ei gyflawni
<p>15.19 (ii) Adolygu, diwygio a gweithredu ei Hysbysiadau Gwella Hylendid, Hysbysiadau Camau Unioni, Hysbysiadau Gwahardd Brys Hylendid a phrosesau Cau yn Wirfoddol, rhybuddion syml ac erlyniadau i gynnwys manylion trefniadau lleol; yn arbennig, dylid edrych ar y dull a'r cofnod o gyflwyno'r rhain, y defnydd o dempledi cymeradwy, gwiriadau cydymffurfiaeth, trefniadau ar gyfer dwyn bwyd anniogel neu benderfyniadau gwahardd gerbron Llys Barn, a'r broses o greu a chymeradwyo ffeiliau ar gyfer penderfyniadau ar erlyniadau/rhybuddion syml. [Y Safon – 15.2]</p>		<p>Bydd amryw weithdrefnau yn ymwneud â hysbysiadau yn cael eu diweddarau i ymgorffori argymhellion yr archwiliad.</p>	<p>Diwygiwyd y Gweithdrefnau ar gyfer Hysbysiadau Gwella Hylendid, Hysbysiadau Camau Unioni, Atafaelu, Cadw ac Ildio Gwirfoddol a Hysbysiadau Gwahardd Brys Hylendid a Chau Gwirfoddol. Diwygiwyd rhestr wirio cymeradwyaeth erlyniad i gynnwys cyfeiriad at feini prawf polisi gorfodi.</p>	<p>Diwygio'r weithdrefn mewn perthynas â rhybuddion ac erlyniadau syml i gynnwys y broses ar gyfer llunio ffeiliau achos a chymeradwyo penderfyniadau.</p>

Mynd i'r afael â (argymhelliad yn cynnwys paragraff)	Statws	Gwelliannau arfaethedig	Cynnydd hyd yma	Heb ei gyflawni
<p>15.19 (iii) Sefydlu gweithdrefnau gorfodi cofnodedig ar gyfer camau dilynol a chamau gorfodi mewn perthynas â Hysbysiadau Gwella, sefydliadau cymeradwy a bwyd wedi'i fewnforio yn unol â'r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd a chanllawiau swyddogol. [Y Safon – 15.2]</p>		<p>Mae'r weithdrefn sy'n ymwneud â'r hysbysiadau mewn safleoedd cymeradwy a rheoli bwyd wedi'i fewnforio i'w datblygu.</p> <p>Bydd y weithdrefn ar gyfer camau dilynol a chamau gorfodi mewn perthynas â Hysbysiadau Gwella yn cael ei chwmpasu gan weithdrefn ym mharagraff 15.19(ii)</p>	<p>Sefydlwyd gweithdrefnau ar gyfer gwaith gorfodi mewn perthynas â hysbysiadau gwella safonau bwyd, sefydliadau cymeradwy a bwyd wedi'i fewnforio.</p>	<p>Wedi'i gwblhau.</p>

Mynd i'r afael â (argymhelliad yn cynnwys paragraff)	Statws	Gwelliannau arfaethedig	Cynnydd hyd yma	Heb ei gyflawni
<p>15.19 (iv) Sicrhau y caiff gwaith gorfodi hylendid bwyd, gan gynnwys Hysbysiadau Camau Unioni, dinistrio bwyd, erlyniadau a Rhybuddion Syml, ei gyflawni yn unol â'r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd, canllawiau swyddogol a chanllawiau a gyhoeddir yn ganolog a gweithdrefnau lleol. [Y Safon – 15.2 ac 15.3]</p>		<p>Hysbysiadau Camau Unioni – Mae swyddogion wedi'u cynghori, lle caiff Hysbysiad Camau Unioni ei gyflwyno, dylid rhoi un ar gyfer pob trosedd a dylid nodi'r ddeddfwriaeth gywir.</p> <p>Lle mae oedi am unrhyw reswm o ran dinistrio bwyd, dylid cofnodi'r rhesymau dros hyn yn briodol. Hefyd, bydd dyddiad/amser y dinistrio yn cael ei nodi ar y ddogfennaeth dderbyn berthnasol.</p> <p>Mae'n rhaid atodi copïau o rybuddion syml i ffeiliau erlyn.</p> <p>Yn ogystal, bydd pob ffeil achos yn cynnwys datganiadau tystion a gwybodaeth ddatgelu briodol.</p>	<p>Gwelliant mewn perthynas â Hysbysiadau Camau Unioni.</p> <p>Mae atafaelu, rhybuddion syml ac erlyniadau dal heb eu profi gan nad oedd yr un ohonynt wedi digwydd yn ystod y cyfnod perthnasol ar gyfer yr archwiliad dilynol hwn.</p>	<p>Sicrhau bod bwyd wedi'i atafaelu yn cael ei ddinistrio a rhybuddion syml ac erlyniadau yn cael eu cyflawni yn unol â'r gofynion perthnasol.</p>

Mynd i'r afael â (argymhelliad yn cynnwys paragraff)	Statws	Gwelliannau arfaethedig	Cynnydd hyd yma	Heb ei gyflawni
<p>15.19 (v) Sicrhau y caiff yr holl benderfyniadau ar gamau gorfodi eu gwneud ar ôl ystyried Polisi Gorfodi'r awdurdod, a'u bod yn cael eu cofnodi fel sy'n briodol. [Y Safon – 15.4]</p>	<p>AGORED</p>	<p>Mae swyddogion wedi'u cynghori o'r angen i sicrhau bod yr holl gamau gorfodi yn cael eu dogfennu'n briodol a'u storio fel sy'n briodol.</p> <p>Mae'r prawf tystiolaethol nawr yn cynnwys ystyriaeth o Bolisi Gorfodi Diogelu'r Cyhoedd.</p>	<p>Dal heb ei brofi gan nad oedd erlyniadau na rhybuddion syml wedi digwydd yn ystod y cyfnod perthnasol ar gyfer yr archwiliad dilynol hwn.</p>	

Mynd i'r afael â (argymhelliad yn cynnwys paragraff)	Statws	Gwelliannau arfaethedig	Cynnydd hyd yma	Heb ei gyflawni
<p>16.7 (i) Cadw cofnodion cyfredol a chywir ar gyfer pob sefydliad bwyd yn ei ardal, yn unol â'r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd a chanllawiau a gyhoeddir yn ganolog; gan gynnwys darparu adroddiadau o ymyriadau i brif swyddfa busnes. Dylai'r cofnodion hyn gynnwys ffurflenni cofrestru sefydliadau bwyd. Dylai'r awdurdod hefyd gofnodi, gyda rhesymau, unrhyw achosion o wro oddi wrth weithdrefnau sefydledig. [Y Safon – 16.1]</p>		<p>Mae swyddogion wedi'u cynghori o'r angen i ddogfennu lle mae gohebiaeth wedi'i hanfon at brif swyddfa.</p> <p>Gan fod cronfa ddata newydd yn cael ei chyflwyno, wrth i swyddogion ymweld â safleoedd, mae ffurflenni cofrestru newydd yn cael eu llenwi. Bydd hon yn broses barhaus hyd nes bydd y gronfa ddata yn llawn.</p> <p>Bydd ffeiliau sefydliadau cymeradwy yn cael eu hadolygu i sicrhau bod yr holl wybodaeth ofynnol yn bresennol. Bydd unrhyw achos o wro oddi wrth y gweithdrefnau sefydledig yn cael ei gofnodi ar ffeiliau sefydliadau.</p>	<p>Roedd ffurflenni cofrestru ar gael ym mhob achos.</p> <p>Peth gwelliant mewn perthynas ag argaeledd gwybodaeth ffeiliau ar gyfer ffeiliau sefydliadau cymeradwy, gan gynnwys cynlluniau tynnu'n ôl/galw yn ôl, gwybodaeth am gyflenwyr a labeli sy'n nodi marciau adnabod.</p>	<p>Sicrhau bod adroddiadau am ymyriadau yn cael eu hanfon yn gyson i brif swyddfa busnes.</p> <p>Sicrhau bod elfennau craidd HACCP busnesau yn cael eu cadw'n gyson, gan gynnwys lle mae tymheredd bwyd sy'n dod i mewn a storio bwyd wedi'i oeri yn cael eu nodi fel Pwyntiau Rheoli Critigol.</p> <p>Sicrhau bod rhestrau cynhyrchion, llif gwaith cynhyrchion, cynlluniau dosbarthu dŵr, cynlluniau draenio a chynlluniau rheoli pla yn gyson ar gael ar ffeiliau sefydliadau cymeradwy, ynghyd â chanlyniadau ar gyfer deunydd crai, profion cynnyrch a dŵr yn ogystal â chanlyniadau samplu awdurdodau lleol.</p>

Mynd i'r afael â (argymhelliad yn cynnwys paragraff)	Statws	Gwelliannau arfaethedig	Cynnydd hyd yma	Heb ei gyflawni
<p>16.12 (i) Sicrhau bod ffurflenni adrodd arolygiad safonau bwyd a ddarperir i fusnesau yn dilyn ymyriadau/arolygiadau yn cynnwys yr holl wybodaeth sy'n ofynnol gan Atodiad 6 y Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd. [Y Safon – 16.1]</p>		<p>Mae adroddiadau ymyriadau safonau bwyd wedi'u hadolygu i sicrhau eu bod yn bodloni gofynion Atodiad 6.</p> <p>Mae ffurflen newydd ar y cyd wedi'i chyflwyno ar gyfer hylendid bwyd a safonau bwyd.</p>	<p>Mae adroddiadau nawr yn cynnwys gwahaniaeth clir rhwng gofynion cyfreithiol ac argymhellion. Rhai gwelliannau wrth adrodd am gamau i'w cymryd gan y busnes ac archwilio dogfennau.</p>	<p>Sicrhau bod adroddiadau yn cynnwys manylion cyswllt yr uwch swyddog, a'r amserlenni ar gyfer cydymffurfio. Sicrhau bod adroddiadau'n gyson yn cynnwys camau i'w cymryd gan y busnes ac archwilio dogfennau.</p>
<p>19.10 (i) Adolygu ei weithdrefnau monitro mewnol cofnodedig ar gyfer hylendid bwyd i gynnwys awdurdodiadau swyddogion, sefydliadau cymeradwy, Strategaethau Gorfodi Amgen ar gyfer hylendid bwyd a gweithgarwch safonau bwyd. Yna, dylai rhoi'r weithdrefn ddiwygiedig ar waith. [Y Safon - 19.1]</p>		<p>Mae'r Weithdrefn Fonitro Fewnol wedi'i hadolygu i ymgorffori awdurdodiadau swyddogion, sefydliadau cymeradwy, Strategaethau Gorfodi Amgen ar gyfer hylendid bwyd a safonau bwyd a gweithgarwch safonau bwyd.</p>	<p>Adolygwyd y weithdrefn fonitro fewnol gofnodedig i gynnwys awdurdodiadau swyddogion, sefydliadau cymeradwy, strategaeth orfodi amgen hylendid bwyd a gweithgareddau safonau bwyd.</p>	<p>Sicrhau bod y gwaith monitro mewnol yn cael ei weithredu'n llawn yn unol â'r weithdrefn fonitro fewnol.</p>

Mynd i'r afael â (argymhelliad yn cynnwys paragraff)	Statws	Gwelliannau arfaethedig	Cynnydd hyd yma	Heb ei gyflawni
19.10 (ii) Ar gyfer hylendid a safonau bwyd, gwirio ei gydymffurfiaeth â'r Safon, y ddeddfwriaeth berthnasol, y Codau Ymarfer Cyfraith Bwyd perthnasol, canllawiau a gyhoeddir yn ganolog a pholisïau a gweithdrefnau cofnodedig yr awdurdod. [Y Safon – 19.2]		Mae'r Weithdrefn Fonitro Fewnol wedi'i hadolygu i ymgorffori awdurdodiadau swyddogion, sefydliadau cymeradwy, Strategaethau Gorfodi Amgen ar gyfer hylendid bwyd a safonau bwyd a gweithgarwch safonau bwyd.	Mae cwmpas y system fonitro fewnol yn ymgorffori pob gweithgaredd ac elfen.	Wedi'i gwblhau.

Crynodeb.

Cyfanswm yr argymhellion	31
Wedi'i gwblhau	17
Cynnydd Da	11
Cynnydd Cyfyngedig	2
Heb gymryd unrhyw gamau gweithredu	0
Heb eu profi	1
Yn weddill	14